

# Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd Gwynedd a Môn

## Crynodeb o Brosiectau a Roddwyd ar Waith, yn cynnwys Cynhyrchion/Canlyniadau

<b>Prosiect Llysgenhadon Bwyd Môr 1/12/14 – 31/8/15</b>		<b>Cost y prosiect - £34,200</b>
Nod y prosiect oedd cysylltu gwahanol sectorau gyda'n bwyd môr lleol, o bysgotwyr i fwytai. Roedd yn anelu at danio diddordeb yn ein bwyd môr lleol ymhlith ysgolion a chymunedau lleol, a chanfod problemau yn y gadwyn gyflenwi.		
<b>Canlyniadau/cynhyrchion uniongyrchol</b>		
<b>Llysgenhadon Ysgolion</b>	Nifer yr ysgolion a fynychodd	<b>26</b>
	Nifer y disgyblion	<b>692</b>
<b>Cogyddion Amatur</b>	Dim gweithdai	<b>2</b>
	Nifer y mynychwyr mewn gweithdai	<b>17</b>
	Nifer y prydau bwyd min nos	<b>10</b>
<b>Talebau Bwyd Môr</b>	Nifer y gweithdai	<b>2</b>
	Nifer y prosesyddion	<b>5</b>
	Nifer y bwytai	<b>10</b>
	Nifer y talebau/prydau bwyd môr	<b>1,313</b>
<b>Nosweithiau Dathlu</b>	Nifer y nosweithiau a gynhaliwyd	<b>8</b>
	Nifer y mynychwyr	<b>40</b>
<b>Cyhoeddusrwydd</b>	<a href="http://www.halenmon.com/local-seafood-flying-the-flag-for-north-wales/">http://www.halenmon.com/local-seafood-flying-the-flag-for-north-wales/</a> <a href="http://www.dailypost.co.uk/news/local-news/seafood-ambassadors-preach-virtues-welsh-8655269#ICID=sharebar_twitter">http://www.dailypost.co.uk/news/local-news/seafood-ambassadors-preach-virtues-welsh-8655269#ICID=sharebar_twitter</a>	

<b>Prosiect Grantiau Bach 1/1/14 – 31/03/15</b>		<b>Cost y prosiect - £41,832.67</b> <b>Cyllid grant - £24,251.36</b>
Nod y prosiect oedd rhoi grantiau bach ym mhedair blaenoriaeth gwaith Echel 4 yn uniongyrchol i gyfranogwyr lleol yn unrhyw un o'r sectorau, gan ganolbwyntio ar gyflawni nodau ac amcanion y strategaethau datblygu lleol.		
<b>Canlyniadau/cynhyrchion uniongyrchol</b>		
<b>Nifer y grantiau a roddwyd</b>	8	
<b>Datblygu treftadaeth</b>	1	Darparu deunyddiau a gweithdai rhyngweithiol amgueddfa forol
<b>Nifer y pysgotwyr a gefnogwyd</b>	1	Peiriannau i'w storio
<b>Digwyddiadau bwyd môr a gefnogwyd</b>	2	Digwyddiadau dathlu bwyd môr i annog pysgotwyr i wella'r gadwyn gyflenwi
<b>BBaCh yn y maes prosesu a gefnogwyd</b>	2	Gwella ansawdd terfynol cynnyrch lleol

<b>BBaCh dyframaeth a gefnogwyd</b>	1	Gwella ansawdd cynhyrchion trwy ddefnyddio offer puro gwell
<b>Pysgota hamdden a gefnogwyd</b>	1	Darparu mynediad i'r anabl i bysgodfeydd mewndirol

<b>Saffaris Môr Top Cat 1/6/14-31/1/15</b>		<b>Cost y prosiect - £28,792.00</b> <b>Cyllid grant - £16,824.23</b>
Diben y prosiect yw ychwanegu gwerth pellach a ffynonellau incwm amgen at y busnes trwy gyfrwng cyfleusterau gwell ar gyfer gwaith ymchwil pellach gan sefydliadau fel Prifysgol Bangor a Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ogystal â chynnal 'Saffaris Tanddwr' trwy ddefnyddio camera tanddwr ar sled.		
<b>Canlyniadau/cynhyrchion uniongyrchol</b>		
<b>Nifer y pysgotwyr a gafodd gymorth i arallgyfeirio</b>	1	
<b>Nifer y teithiau ers ailwampio'r cwch</b>	10 (dechreuwyd yn hwyrach yn y tymor na'r disgwyl a bu'r tywydd yn rhwystr o ran cyrraedd y canlyniadau disgwyliedig)	
<b>Nifer yr arolygon/gwaith arolygu a gynhaliwyd</b>	4	
<b>Nifer y swyddi rhan amser a grëwyd (tymhorol)</b>	0.5	

<b>Tŷ Halen a Chanolfan Ymwelwyr Halen Môn 1/1/14 – 31/12/14</b>		<b>Cost y prosiect - £ 43,905.00</b> <b>Cyllid grant - £28,543.52</b>
Yn sgil y Prosiect fe sefydlwyd Tŷ Halen a Chanolfan Ymwelwyr yn Ne Orllewin Ynys Môn, sy'n adrodd hanes halen ac yn hwyluso Teithiau Tywysedig i Ymwelwyr o amgylch cyfleuster cynhyrchu newydd Halen Môn. Mae'r Teithiau i Ymwelwyr yn apelio at bobl ar wahanol lefelau: * yn wyddonol, sut y caiff yr halen ei wneud a sut y caiff ei ddefnyddio; * yn hanesyddol ac yn ddiwylliannol, y lle sydd gan halen yn y gymdeithas ddynol (Ynys Môn yn arbennig); * ymdeimlad o le, yr hyn sy'n gwneud Halen Môn yn wahanol i halen môr arall; * defnydd coginiol, cymysgu eich sennin halen eich hun.		
<b>Canlyniadau/cynhyrchion uniongyrchol</b>		
Diogelu a chreu swyddi	<b>1 x swydd dymhorol ran amser</b>	
Ymestyn y tymor	<b>Teithiau hwy'r wedi'u trefnu</b>	
Ymgysylltu ag ymwelwyr a thrigolion lleol	<b>250 o ymwelwyr hyd yn hyn – dylid ailedrych ar y nifer ar ôl monitro'r 12 mis yn llawn</b>	

<b>Môn Aquaculture Ltd 1/1/14-31/8/15</b>		<b>Cost y prosiect - £14,323.52</b> <b>Cyllid grant - £11,795.84</b>
Sefydlwyd Môn Mariculture er mwyn ffermio pysgod cregyn o amgylch arfordir Ynys Môn. Mae'r cwmni'n bwriadu ffermio wystrys, cregyn gleision a chregyn bylchog ar safle newydd ym Mae Penrhos. Bydd dull arloesol o ffermio wystrys trwy ddefnyddio basgedi crog, a elwir yn system ORTAC, yn cael ei gyfuno â pholion 'bouchot' cregyn gleision a ffermio cregyn bylchog ar wely'r môr.		
<b>Canlyniadau/cynhyrchion uniongyrchol</b>		
<b>Astudiaethau a gynhaliwyd</b>	1	
<b>Camau a gymerwyd i ledaenu gwybodaeth</b>	1 trwy gyfrwng y wefan ac anfon gwybodaeth at bartion â budd.	
<b>Dogfen ganllaw</b>	Dogfen ganllaw'n ymwneud a sut i sefydlu'r pedair system ar gyfer ffermio pysgod cregyn, angen caniatâd, gofynion o ran tystiolaeth a data, arferion gorau (e.e. monitro a chydweithio ag eraill), asiantaethau a chyrrff y cysylltwyd â hwy ac ati. Bydd yn cynnig canllaw gam wrth gam cynhwysfawr, ond syml, ar sut i sefydlu a threialu pedair system ar gyfer ffermio pysgod cregyn yng Nghymru.	
<b>Pennotec 1/7/15-31/8/15</b>		<b>Cost y prosiect - £16,630.00</b> <b>Cyllid grant - £10,249.80</b>
Arweiniodd y prosiect hwn at osod labordy/gweithdy a chyfleuster swyddfa ym Mhen Llŷn, er mwyn paratoi samplau o gynhyrchion cemegol naturiol wedi'u gwneud o hen gregyn crancod trwy ddefnyddio technoleg berchnogol y cwmni.		
<b>Swyddi a grëwyd</b>	1	
<b>Swyddi a ddiogelwyd</b>	1	
<b>Gwerth y contract cyntaf a enillwyd ar sail y cyfleusterau</b>	£33,333	

<b>Sw Môr Môn 1/5/15-31/8/15</b>		<b>Cost y prosiect - £90,312.68</b> <b>Cyllid grant - £53,897.25</b>
Ehangu'r arddangosfeydd cyhoeddus yn y Sw Môr fel rhan o ymgyrch hyrwyddol o'r enw 'Y Gorau o Fywyd Môr Prydain'. Yr arddangosfeydd arfaethedig yw ieir môr/pysgod clytsiwr, ail rywogaeth ceffyl môr Prydain a thanc Kreisel pwrpasol ar gyfer slefrod môr, gyda'r systemau trydanol/oeri hanfodol i gynnal yr arddangosfeydd.		
<b>Canlyniadau/cynhyrchion uniongyrchol</b>		
<b>Cynhyrchu a gosod tair arddangosfa ychwanegol o rywogaethau Prydeinig</b>	3	
<b>Digwyddiad lansio</b>	1 – fe'i hgorwyd gan un o sêr The One Show	

<b>Digwyddiadau rhad ac am ddim i ysgolion</b>	<b>2 – hyd yn hyn; byddwn yn parhau yn y flwyddyn newydd</b>

<b>Marina Hirael 1/5/15-31/8/15</b>		<b>Cost y prosiect - £23,010.00</b>
<p>Mae grŵp rhanddeiliaid defnyddwyr sy'n ymwneud â Marina Bangor wedi gofyn am gael cynnal astudiaeth ar ran o Farina Bangor sydd wedi bod yn llai prysur ers i Dickies symud i Borth Penrhyn. Bydd yr astudiaeth yn trafod datblygiad posibl y safle, sef rhywbeth a fyddai'n cyfrannu at adfywio'r ffrynt ym Mangor a'r defnydd o amwynderau yno, gan esgor ar fanteision sylweddol i'r cyhoedd yn sgil unrhyw gyllid y gellir cael gafael arno, yn seiliedig ar gasgliadau'r astudiaeth.</p>		
<b>Canlyniadau/cynhyrchion uniongyrchol</b>		
<b>Astudiaeth ddichonoldeb</b>		1
<b>Cam nesaf y datblygiad</b>		Mae materion yn ymwneud â datblygu tai yn yr ardal wedi dod i'r fei, felly ni ellir bwrw ymlaen ar hyn o bryd

<b>Marina Porthaethwy 1/5/15-31/8/15</b>		<b>Cost y prosiect - £20,310.00</b>
<p>Cynigir y dylid penodi contractwyr i lunio astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer rhan o Ffrynt Porthaethwy ar gyfer ymdrin â'r uchod a'r tir i'r dwyrain o Borth y Wrach, sy'n ymestyn cyn belled ag Ynys Castell. Mae grŵp y prosiect – sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r gymuned, y sector cyhoeddus, y Brifysgol a'r sector preifat, ynghyd â Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd Gwynedd a Môn – yn rhagweld y bydd yr ardal hon o fudd i bob sector gyda datblygiad gam wrth gam, a'r gred yw y bydd astudiaeth ddichonoldeb yn dangos hyn.</p>		
<b>Canlyniadau/cynhyrchion uniongyrchol</b>		
<b>Astudiaeth ddichonoldeb</b>		1
<b>Cam nesaf y datblygiad</b>		Mae angen mwy o gyllid i ymchwilio i'r effeithiau Amgylcheddol a'r broses gynllunio (mynediad), a byddwn yn ailedrych ar hyn yn ystod Hydref 2016
<b>Llwybr Pysgotwyr i'r Farchnad 1/5/15-31/8/15</b>		<b>Cost y prosiect - £3,228.00</b>
<p>Bydd y cownteri'n cael eu defnyddio gan bysgotwyr/prosesyddion bwyd lleol i arddangos a hyrwyddo'u dalfa, ynghyd ag amrywiaeth o gynhyrchion, mewn sioeau a gwyliau trwy'r DU. Bydd hyn yn rhan o ymgyrch i annog yr arfer o farchnata'u dalfa a'u cynhyrchion prosesedig er mwyn dangos y gorau o'n dalfeydd lleol.</p>		
<b>Gŵyl Tir a Môr Llŷn</b>		
<b>Sioe Môn</b>		
<b>Gŵyl Fwyd Porthaethwy</b>		

<b>Gŵyl Wystrys</b> <b>Marchnad ffermwyr lleol – Porthmadog (Gorffennaf/Awst/Medi)</b> <b>Marchnad ffermwyr lleol – Porthaethwy (Gorffennaf/Awst/Medi)</b>		
--	--	--

<b>Astudiaeth o Lwybr Ynni'r Llanw i'r Farchnad 1/5/15-31/8/15</b>	<b>Cost y prosiect - £23,070.02</b>
--	-------------------------------------

Penodwyd Marine Space i gynnal astudiaeth i'r posibiladau yng nghadwyn gyflenwi Ynni'r Llanw, gyda golwg ar bennu meysydd arallgyfeirio perthnasol i bysgotwyr yng ngoleuni'r Parth Arddangos yn Ynys Môn. Roedd y prif weithgareddau'n cynnwys y canlynol:

- Ymgysylltu â datblygwyr i bennu'r mathau o wasanaethau y byddai eu hangen yn ystod holl gamau'r datblygiad.
- Pennu'r mathau o sgiliau a chyfarpar y byddai eu hangen i fynd i'r afael â'r gwasanaethau.
- Pennu amserlen fras ar gyfer y gweithgareddau.
- Mesur gwerth potensial y gwasanaethau y gallai'r diwydiant pysgota eu darparu.
- Ymgysylltu â'r diwydiant pysgota i fesur y capasiti presennol i gyflwyno gwasanaethau, a'r awydd i arallgyfeirio.
- Pennu modelau posibl ar gyfer rhoi cymorth i ddiwydiant ynni'r llanw e.e. trwy gyfrwng fframwaith.
- Llunio adroddiad a chynllun gweithredu. Fe'u dosbarthwyd i randdeiliaid cyn cwblhau'r prosiect er mwyn iddynt allu cyflwyno sylwadau.

<b>Canlyniadau/cynhyrchion uniongyrchol</b>	
---	--

<b>Astudiaeth</b>	1
<b>Gweithdy</b>	1
<b>Dosbarthu'r adroddiad</b>	Trwy gyfrwng gweithdy a phartïon â budd (hefyd ar wefan Morlais)

<b>Y Cwt Mwg 1/5/15-31/8/15</b>	<b>Cost y prosiect - £28,431.25</b> <b>Cyllid grant - £14,215.20</b>
---------------------------------	---

Nod y Cwt Mwg yw cynhyrchu Bwyd Môr wedi'i fygu o'r radd flaenaf trwy ddefnyddio cynnyrch cynaliadwy mor lleol ag y bo modd. Maent yn gweithio gyda physgotwyr lleol i ddod â physgod asgellog a physgod cregyn sydd wedi'u dal yn lleol i'r farchnad ehangach, a byddant hefyd yn ychwanegu gwerth at y rhain wrth eu mygu trwy ddefnyddio pren caled naturiol, ynghyd ag ymestyn 'cyfnod silff' y cynhyrchion gan wneud cynnyrch lleol gwerthfawr yn fwy deniadol i siopau a masnachu ar-lein.

Ymhellach, mae'r Cwt Mwg yn anelu at gyflogi prentis a staff tymhorol yn y 12 mis nesaf.

<b>Canlyniadau/cynhyrchion uniongyrchol</b>
---

<b>BBaCh a gefnogwyd yn uniongyrchol</b>	1
<b>Gwasanaethau ychwanegol a grëwyd</b>	1
<b>Cael gafael ar fwyd môr lleol</b>	O ddwy ffynhonnell i wyth erbyn hyn
<b>Effaith economaidd</b>	Ni wyddys eto – rhaid cael cyfnod masnachu hwy
Effaith anuniongyrchol	Gweithio gyda BBaCh i ddarparu gwasanaeth mygu cyffredinol. Bydd yr effaith o safbwynt twristiaid yn cael ei hasesu yn 2016.
<b>Swyddi a grëwyd</b>	0.50

<b>Cynllun Peilot Arddangosfa Dyframaeth mewn Ysgolion 1/5/15-31/8/15</b>	<b>Cost y prosiect - £4,800.00</b>
<p>System acwaponig yw'r 'Pysgodyn Pecyn Fflat' – system sy'n cyfuno dyframaeth a chynhyrchu cnydau hydroponig. Mae'r Pysgodyn wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer amgylchedd ysgolion cynradd. Yn ystod y prosiect, bydd y Pysgodyn Pecyn Fflat yn cael ei gludo i bedair o ysgolion cynradd yng Ngwynedd ac Ynys Môn ac yn cael ei ddefnyddio fel ffocws ar gyfer gweithgareddau addysg ymarferol sy'n canolbwyntio ar bysgodfeydd a materion yn ymwneud â dyframaeth. Bydd y disgyblion yn gweithio tuag at ennill gwobrau Sêr CREST a roddir gan Gymdeithas Wyddoniaeth Prydain, sy'n cydnabod ymchwilio a chyrrhaeddiad cynnar mewn gwyddoniaeth.</p>	
<b>Canlyniadau/cynhyrchion uniongyrchol</b>	
<b>Nifer yr ysgolion a gymerodd ran</b>	2
<b>Nifer y plant a enillodd wobrau CREST – Blwyddyn 1</b>	14
<b>Blwyddyn 2</b>	27
Blwyddyn 3	17
<b>Cofrestru a chefnogi cynllun gwobrau CREST</b>	1 – 8 o benawdau pwnc gwyddoniaeth

<b>Menter Môn – Prosiect Animeiddio, Cyfathrebu a Gwerthuso</b>	
<b>Asedau'r prosiect</b>	
<b>Cynhyrchu pedair ffilm yn ymdrin â'r diwydiant pysgota lleol a'r farchnad bwyd môr leol</b>	<p>Ein Prosiectau <a href="https://www.youtube.com/watch?v=KRNHPZLMMpo">https://www.youtube.com/watch?v=KRNHPZLMMpo</a>  Ein Bwyd Môr <a href="https://www.youtube.com/watch?v=ZKyoVIOfUEM">https://www.youtube.com/watch?v=ZKyoVIOfUEM</a>  Ein Pysgotwyr <a href="https://www.youtube.com/watch?v=Z7lpRUdHRm4">https://www.youtube.com/watch?v=Z7lpRUdHRm4</a>  Ein Hymrwymiad <a href="https://www.youtube.com/watch?v=4R-A07mhMms">https://www.youtube.com/watch?v=4R-A07mhMms</a></p>
<b>Poster addysgol</b>	Fe'i dosbarthwyd i'r holl ysgolion cynradd a oedd yn rhan o'r rhaglen Bwyd Môr. Celfwaith a phoster mawr a oedd yn eiddo i Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd Gwynedd a Môn.

